# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw
# ar y 13eg o Dachwedd 2018
# yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:**
Cynghorwyr Carys Morgan (Cadeirydd), Wyn Evans, Jocelyn Andrew, Eiddwen Merritt, Gerallt Davies, Garym Roberts a Ruby Williams.
**Hefyd yn bresennol:**
Y Clerc.
**Ymddiheuriadau:**
Cynghorwyr  Wyn Jones, Barry Owen a'r
Cynghorwr Sirol Marc Davies.
**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.
**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Hydref a'u cafwyd yn gywir.
**Codi o'r cofnodion:**
Nodwyd fod y twll yn y ffordd tu allan i New Foundry heb ei lanw nac hefyd fod y coed wedi eu torri yn y 'layby', gofynwyd i'r clerc wneud ymholiadau pellach.
**Materion Cynllunio:**
Rhif Cais: A180798.
Pentre Gwyliau Gilfach, Llwyncelyn, Aberaeron, SA46 0HN.
Dymchwel 29 o hafotai gwyliau a newid defnydd o dir i gymryd 29 o garafannau gwyliau sefydlog.
Dim gwrthwynebiad.
Rhif Cais: A181066.
Uned 2, Parc Busnes Forge, Ffos-y-ffin, Aberaeron.
Newid defnydd cyn ganolfan chwarae i A1, A2, B1, B2 a B8.
Dim gwrthwynebiad.

**Ffoniwch 111**
Dosbarthwyd daflenni sy'n dangos gwasanaeth newydd gyda GIG Cymru i fobl ffonio mewn achos brys sydd ddim yn bygwth bywyd i gael cyngor, gofal brys a gwybodaeth iechyd.
**Diwrnod Hawliau Gofalwyr**
Hysbyswyd y pwyllgor am Ddiwrnod Hawliau Gofalwyr sy'n gael ei gynnal ar y 30ain o Dachwedd 2018 yn yr Hen Goleg, Aberystwyth, bydd hwn yn cynnig gwybodaeth a chymorth.
**Unrhyw Fater Arall:**
Nodwyd gan y Cyng. Ruby Williams fod yna dwll dwfn yn y ffordd yn y 'layby' yn Ffos-y-ffin ac hefyd ar bwys y blwch post ger Bro Ddewi. Gofynwyd i'r clerc i roi gwybod i'r Adran Briffyrdd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 11fed o Ragfyr.